

Diweddariadau o WCVA

04 Mehefin 2018

Helo a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Mae Wythnos Gwirfoddolwyr ar ei hanterth, dyma'r achlysur blynyddol i ddathlu gwirfoddolwyr ledled Prydain a gynhelir 1-7 Mehefin bob blwyddyn. Cofiwch fod gennym logos, tystysgrifau, posteri a mwy ar gael ar ein [gwefan](#) i'ch helpu i ddathlu'ch gwirfoddolwyr. Hefyd heddiw rydym wedi cyhoeddi'r dyddiad 'mynd yn fyw' ar gyfer [llwyfan digidol newydd Gwirfoddoli Cymru](#), cofrestrwch cyn dydd Gwener ac fe fydd eich cyfleoedd yn ymddangos ar y wefan newydd pan drow'n ni'r swits ymlaen!

Cynhelir y rownd nesaf o ddigwyddiadau ymgysylltu Cefnogi Trydydd Sector Cymru ledled y wlad ym mis Gorffennaf gan ganolbwyntio ar 'GDPR a Seiberddiogelwch'. [Gallwch gael gwybod mwy a chadw'ch lle yn un o'r digwyddiadau am ddim hyn yma](#). Hefyd os nad ydych wedi gweld ein hadnoddau GDPR newydd i'r trydydd sector yna ewch draw i'n gwefan: www.wcva.org.uk/GDPR.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni eto wythnos nesaf.

Gwirfoddoli

[Llwyfan gwirfoddoli digidol newydd 'yn fyw' ar 8 Mehefin](#)

Mae partneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru wedi cyhoeddi heddiw y dyddiad 'mynd yn fyw' ar gyfer llwyfan gwirfoddoli digidol newydd i ddisodli'r system bresennol ar gwirfoddolicymru.net o 8 Mehefin 2018 ymlaen.

[Rwyf ar lwyfan newydd Gwirfoddoli Cymru - beth nawr?](#)

Yn ei hail flog ar y pwnc, mae Fiona Liddell, Rheolwr Datblygu Gwirfoddoli yn WCVA, yn cynnig rhagor o awgrymiadau ar ddefnyddio gwefan newydd Gwirfoddoli Cymru, a fydd yn cael ei lansio ddechrau mis Mehefin.

[Bathodynau Digidol Newydd Gwirfoddoli Cymru](#)

Caru gwirfoddoli? Caru cyfrif? Caru bathodynau?

[Diwrnod 'Rhannu'ch Addewid' Ymgyrch #byddaf – 5ed Mehefin](#)

Fel rhan o #WythnosGwirfoddolwyr, cynhelir 'Diwrnod Rhannu'ch Addewid' ar 5 Mehefin.

Ryseitiau ar gyfer Wythnos Gwirfoddolwyr Iwyddiannus

Ydych chi wedi blino ar wneud yr un hen beth ar gyfer Wythnos Gwirfoddolwyr? Sgwn i sawl ffordd sydd yna o gydnabod gwirfoddolwyr a dweud diolch iddynt? Yr ateb – sawl ffordd wahanol.

Ydych chi yn y llefydd lle mae'ch darpar wirfoddolwyr?

Dywedodd pobl ifanc wrthym yr hoffent glywed am wirfoddoli ar y cyfryngau cymdeithasol. Ydych chi yno eto?

Mae pobl ifanc yng Nghymru yn rhoi bron i 40,000 awr o'u hamser i wella eu cymunedau lleol

Mae Cymru yn llawn pobl ifanc ymroddgar ac angerddol sydd eisiau creu newid positif ledled y genedl.

Cyffredinol trydydd sector

Prime Cymru a'r Gronfa Cynhwysiant Cymru

A wyddoch chi fod tîm y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol yn cynnig cymorth o'r cam ymgeisio hyd at ddiwedd y prosiect?

Cyllid

Cronfa Gymunedol Gwrth-Gyllyll £1 miliwn gan y Swyddfa Gartref

Cronfa £1 miliwn i gefnogi prosiectau cymunedol sy'n lleihau troseddau cylllell

Grantiau ar gyfer Gosodiadau Dydd y Cofio

Gall cymunedau yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig ymgeisio nawr am grantiau ar gyfer gosodiadau i gefnogi eu gweithgareddau ar Ddydd y Cofio i nodi canmlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ariannu Prosiect Ieuenctid Tyfu'n Wylt 2018

Mae blodau gwyllt a ffyngau'n anhygoel! Dyna pam ein bod yn gwahodd pobl ifanc 14-25 oed i gymryd rhan mewn haf yn llawn gweithgareddau a defnyddio eu sgiliau creadigol.

Hyfforddiant a digwyddiadau **[Adeiladu Gwlad Gydweithredol 2018](#)**

Beth yw rhai o'r prif faterion sy'n achosi heriau i bobl ifanc heddiw?

[Ysbrydoli gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni annibyniaeth a lles trwy uchelgais ddigidol](#)

Pa mor uchelgeisiol all eich sefydliad bod o ran defnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell?

[Cyflwyniad i'r GDPR i brosiectau a ariennir gan yr UE](#)

Yn gwybod pa gamau i'w cymryd i gydymffurfio â gofynion y GDPR

[Cyflwyniad i ddylanwadu](#)

Cyfle i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth, yr offer a'r technegau angenrheidiol i ddadlau'n effeithio

[Archebwch Nawr - Helpu Byd Natur I Weithio Dros Eich Cymuned](#)

Os ydych yn awyddus i gael gwybod am y polisiau amgylcheddol diweddaraf, cyfleoedd cyllido, a dod o hyd i bartneriaid i brosiectau, dewch i'n digwyddiadau a gynhelir yn fuan! 19, 21, 22 Mehefin 2018

[Gweminar: Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru](#)

Hoffech chi siapiao'r Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru? Cewch wybod sut i gyfrannu ato yn ein gweminar 06.06.18

Ymddiriedolwyr a llywodraethu **[Diogelu- Disgwyliadau i Ymddiriedolwyr](#)**

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi dweud bod "diogelu yn flaenoriaeth llywodraethu allweddol i bob elusen, nid dim ond y rheini sy'n gweithio gyda grwpiau a ystyrir yn draddodiadol i fod yn rhai agored i niwed".

Polisi a gwleidyddiaeth **[Pa gamau sy'n cael eu cymryd i genedlaethau'r dyfodol gael aer glân i'w anadlu?](#)**

Yr ydym wedi casglu a chrynhoi ymgynghoriadau llywodraethol presennol, ymgyrchoedd trydydd sector, a chamau y gallwch eu cymryd i leihau bygythiadau i ansawdd ein haer...

[Cyfle i gryfhau'ch perthynas â Llywodraeth Cymru](#)

Eisiau dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector? Bydd rhaglen STEP yn hwyluso ymweliadau gan Lywodraeth Cymru ag aelodau WCVA a chyfle i aelodau rwydweithio ym Mharc Cathays a'r Senedd.

[Helpwch i wella gwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru](#)

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru, gan gynnwys Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Nod y rhwydwaith yw galluogi'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ledled Cymru i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.